# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

| |
|---|
| Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, 2020-21. |

**Adran:**

| |
|---|
| Yr Is-Adran Plant a Theuluoedd |

**Yr Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:**

| |
|---|
| Julie Morgan AC, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Dyddiad dechrau:**

| |
|---|
| 30 Ionawr 2020 |

**Cyfeiriad e-bost cyswllt:**

| |
|---|
| FlyingStart2@llyw.cymru |

# Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ffordd bwysig o ragweld cynnydd diweddarach mewn llythrennedd. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu gwael plant yn effeithio ar amrywiaeth eang o ganlyniadau gan gynnwys ymddygiad ac iechyd meddwl, bod yn barod i fynd i'r ysgol a chyflogadwyedd.

Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu am eu bod yn hanfodol ar gyfer canlyniadau hirdymor.

Gallai fod angen cymorth ychwanegol ar unrhyw blentyn, ni waeth ble mae'n byw na beth yw ei amgylchiadau teuluol, i fynd i'r afael ag oedi neu anawsterau o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ein nod yw sicrhau y gall plant ledled Cymru gael gafael ar gymorth o safon uchel, boed yn gymorth cyffredinol, yn gymorth wedi'i dargedu neu'n gymorth arbenigol, yn y blynyddoedd cynnar – os oes angen – i feithrin eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Er mwyn symud hyn yn ei flaen, rydym yn ystyried sut y gallem gymryd y dysgu o'r gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith o fewn rhaglen hirsefydledig Dechrau'n Deg a gwreiddio'r arferion da hyn yn ehangach.

Rydym wedi llunio cynllun cyflawni cenedlaethol sydd â'r nod o ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i feithrin eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT) a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg sydd wedi ein helpu i nodi'r camau gweithredu y mae angen inni eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae dull o weithredu'n drawslywodraethol ac ar draws y sectorau (gan gynnwys addysg, iechyd a pholisi 'cymdeithasol') wedi cael ei roi ar waith a fydd yn helpu i ymgysylltu â theuluoedd ac adeiladu ar y polisïau sydd eisoes yn bodoli a'r hyn sy'n gweithio. Cydnabyddir drwy waith ymchwil wedi'i gomisiynu[1] nad oes angen i Gymru ddyfeisio model cyflawni newydd. Yn lle hynny, mae angen gweithredu'n strategol er mwyn gwneud i'r gweithgareddau presennol weithio ym mhob lleoliad yng Nghymru.

[1] Astudiaeth i fapio'r ddarpariaeth addysgol bresennol o ran cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yng Nghymru, ar gyfer dysgwyr 0-25 oed

**Ffyniant i Bawb**

Mae'r ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu, a datblygiad iaith cynnar yn arbennig, yn cyd-fynd â'r ymrwymiad mewn perthynas â'r Blynyddoedd Cynnar yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau y caiff pob plentyn y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac y gall wireddu ei botensial llawn.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Bydd y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cyfrannu at y saith nod llesiant, yn enwedig:

*Cymru lewyrchus* – Mae gan blant sydd wedi caffael sgiliau iaith cynnar gyfle gwell i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn ddiweddarach mewn bywyd, megis cyrhaeddiad addysgol o safon dda, gwell iechyd meddwl, mwy o botensial o ran cyflogadwyedd a chydraddoldeb cymdeithasol.

*Cymru iachach* – Gwyddom o'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael fod angen blaenoriaethu datblygiad iaith cynnar fel dangosydd llesiant plant a'i drin fel mater iechyd y cyhoedd.

*Cymru sy'n fwy cyfartal* – Mae caffael iaith yn gynnar yn elfen allweddol yn y broses o greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

*Cymru o gymunedau cydlynus* – Mae gan gyfradd sylweddol o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a dynion ifanc sy'n ddi-waith am gyfnod hir anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd hybu a chefnogi'r broses o gaffael iaith yn gynnar yn cyfrannu at greu cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – Bydd hybu datblygiad iaith cynnar yn y Gymraeg yn cyfrannu at strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.*

**Pum ffordd o weithio**

Lluniwyd y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu â ffocws cadarn ar gynaliadwyedd a'r pum ffordd o weithio.

Gwyddom o waith ymchwil y gall problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu arwain at broblemau i bobl ifanc yn ddiweddarach mewn bywyd os na chânt eu datrys yn y blynyddoedd cynnar. Gall y rhain bontio'r cenedlaethau ac rydym am wneud mwy i dorri'r cylch.

Drwy hyrwyddo pwysigrwydd chwarae gyda phlant ac ymgysylltu a siarad â nhw yn y blynyddoedd cynnar er mwyn eu helpu i gaffael iaith yn gynnar, rydym yn bwriadu cefnogi rhieni drwy eu helpu i feddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth y byddant yn eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Drwy nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mor gynnar â phosibl a rhoi ymyriadau prydlon ar waith, gallwn helpu i atal problemau rhag gwaethygu ac atal plant rhag mynd ar goll yn y system.

Drwy gyfuno ein polisïau presennol mewn cynllun cyflawni, gallwn ystyried datblygiad iaith cynnar mewn modd cyfannol a dwyn y system ynghyd er mwyn rhoi lle blaenllaw i leferydd, iaith a chyfathrebu yn ein hymdrechion i sicrhau y caiff pob plentyn y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Drwy weithio gydag arbenigwyr ym maes therapi lleferydd ac iaith, gwyddom y gallwn lywio ein cyfeiriad cenedlaethol mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan adeiladu ar yr arferion da y gwyddom sy'n bodoli yn ein hawdurdodau lleol fel y gwelir drwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Rydym wedi cynnal arolygon gydag ymarferwyr lleferydd, iaith a chyfathrebu a rhieni er mwyn sicrhau bod ein cynllun cyflawni'n adlewyrchu eu safbwyntiau. Yn benodol, gwelsom o'r adborth gan rieni yr hoffent gael negeseuon allweddol am leferydd, iaith a chyfathrebu drwy gymysgedd o ddulliau cyfathrebu – yn ddigidol a thrwy adnoddau traddodiadol. Bydd ein hymgynghoriad yn targedu ymarferwyr a'r cyhoedd drwy ein timau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu na ddylem fwrw ymlaen â chynllun cyflawni. I'r gwrthwyneb, mae gweithwyr proffesiynol, megis Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn gefnogol iawn o'r ffordd hon ymlaen, er mwyn helpu i godi proffil lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ategwyd hyn gan waith ymchwil ar sail tystiolaeth sy'n cyfeirio at bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i'n cymdeithas.

Mae cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer y cynllun cyflawni er mwyn cynnal rhai o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymgyrch hyrwyddo genedlaethol ac er mwyn adolygu adnoddau sgrinio lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r mwyafrif o'r ymrwymiadau yn y cynllun yn mynd rhagddynt ac yn cael eu hariannu o dan y portffolios polisi unigol megis Addysg ac Iechyd.

# Casgliad

**Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Lluniwyd y cynllun cyflawni drafft mewn ymgynghoriad â Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Therapi Lleferydd Dechrau'n Deg. Mae'r ddau grŵp rhanddeiliaid uchel eu parch hyn yn adlewyrchu buddiannau'r bobl a'r cymunedau amrywiol a wasanaethir ganddynt. Gwyddom fod Dechrau'n Deg yn gwneud gwahaniaeth i fywydau teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd dan anfantais lle mae oedi o ran datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu yn fwy cyffredin yn y blynyddoedd cynnar.

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus rydym ar fin ei gynnal yn targedu grwpiau sy'n cefnogi plant ag anawsterau iaith cynnar, er enghraifft cydlynwyr ADY mewn ysgolion.

Cytunwyd ar y polisïau trawslywodraethol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun cyflawni gyda'r Gweinidogion a'r swyddogion polisi arweiniol perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd ffocws ar y Gymraeg er mwyn adlewyrchu strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (Cymraeg 2050). Mae'r polisïau yn y cynllun cyflawni sydd eisoes yn bodoli eisoes wedi bod yn destun asesiadau effaith – lle y bo'n briodol – neu bwriedir eu hasesu ymhellach.

Mae cynrychiolwyr Plant yng Nghymru yn rhan o rwydwaith Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf ac maent wedi bod yn rhan o'r trafodaethau am lunio'r cynllun cyflawni.

Mae gweithio gyda'n rhwydweithiau wedi sicrhau bod barn pobl â nodweddion gwarchodedig wedi cael eu hystyried, ond byddwn yn targedu'r grwpiau amrywiol yn ein hymgynghoriad cenedlaethol a fydd yn rhoi rhagor o adborth inni i lywio fersiwn derfynol y cynllun cyflawni.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Bydd cyhoeddi'r cynllun cyflawni yn codi proffil lleferydd, iaith a chyfathrebu a phwysigrwydd caffael iaith yn gynnar ymhellach. Drwy ymgysylltu'n gynnar â gweithwyr proffesiynol yn y maes, sef therapyddion lleferydd ac iaith ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar Dechrau'n Deg, rydym wedi cydweithio i lunio cynllun cyflawni sy'n cynnwys pedwar amcan pwysig (neu bedair thema bwysig):

**Amcan 1: Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd**

Amcan 1: Bydd rhieni'n[2] fwy gwybodus a chymwys i ddeall pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i'w plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar.

**Amcan 2: Gwella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant eu hasesu (yn y Blynyddoedd Cynnar)**

Amcan 2: Byddwn yn nodi arwyddion cynnar o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni ymyriadau priodol i bawb lle y bo eu hangen.

**Amcan 3: Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**

Amcan 3: Bydd y gweithlu gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yng Nghymru yn hynod hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi ymyriadau ar gyfer plant a theuluoedd lle y nodwyd anghenion o ran datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.

**Amcan 4: Gwreiddio lleferydd, iaith a chyfathrebu ym mholisïau Llywodraeth Cymru**

Amcan 4: Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod polisïau a strategaethau perthnasol yn adlewyrchu pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu o'r blynyddoedd cynnar a thu hwnt. Bydd pob menter polisi yn y dyfodol yn cwmpasu nod i helpu dinasyddion yng Nghymru i fynd i'r afael â phroblemau amrywiol mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu, lle y cânt eu nodi.

Datblygwyd y pedwerydd amcan gan grŵp rhanddeiliaid polisi mewnol a cheisiwyd cydsyniad i barhau i gydweithio ar draws portffolios Gweinidogol er mwyn sicrhau bod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael sylw cyson fel un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

**Saith nod llesiant**

Bydd y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cyfrannu at y saith nod llesiant, yn enwedig:

*Cymru lewyrchus* – Mae gan blant sydd wedi caffael sgiliau iaith cynnar gyfle gwell i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn ddiweddarach mewn bywyd, megis cyrhaeddiad addysgol o safon dda, gwell iechyd meddwl, mwy o botensial o ran cyflogadwyedd a chydraddoldeb cymdeithasol.

*Cymru iachach* – Gwyddom o'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael fod angen blaenoriaethu datblygiad iaith cynnar fel dangosydd llesiant plant a'i drin fel mater iechyd y cyhoedd.

*Cymru sy'n fwy cyfartal* – Mae caffael iaith yn gynnar yn elfen allweddol yn y broses o greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

*Cymru o gymunedau cydlynus* – Mae gan gyfradd sylweddol o bobl ifanc yn y system

[2] Defnyddir y term torfol 'rhieni' drwy'r ddogfen hon i gyd, ond mae hyn yn cynnwys rhieni maeth a rhieni mabwysiadol/gwarcheidwaid.

cyfiawnder troseddol a dynion ifanc sy'n ddi-waith am gyfnod hir anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd hybu a chefnogi'r broses o gaffael iaith yn gynnar yn cyfrannu at greu cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – Bydd hybu datblygiad iaith cynnar yn y Gymraeg yn cyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Gall cynnydd mewn cyhoeddusrwydd ynglŷn â lleferydd, iaith a chyfathrebu a phwysigrwydd datblygiad iaith cynnar arwain at rai canlyniadau anfwriadol. Wrth i rieni ddod yn fwy gwybodus am gaffael iaith yn gynnar o bosibl, gallent boeni, a hynny heb fod angen weithiau, am fân achosion o oedi yn natblygiad ieithyddol eu plant. Gallai hyn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth a rhoi pwysau ar adnoddau.

Hefyd, gallai cymryd arferion da gan dimau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg a'u gwreiddio'n ehangach ledled Cymru arwain at fwy o ddisgwyliadau a phwysau ar wasanaethau y tu allan i Dechrau'n Deg. Er mwyn newid i wasanaeth teg sy'n seiliedig ar y safonau a osodwyd gan Dechrau'n Deg, gall fod angen rhagor o fuddsoddiad, yn enwedig mewn hyfforddiant i staff presennol.

Gallai'r gwaith o wella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant (y Blynyddoedd Cynnar) eu hasesu gymryd amser i ddwyn ffrwyth. Ar hyn o bryd, mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn sgrinio plant bach am ddatblygiad iaith mewn ffordd ychydig yn wahanol. Bydd yn cymryd amser i fapio sut a pham y mae pob awdurdod lleol yn sgrinio'n wahanol a bydd angen i ni ddod i gytundeb ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Gallai hyn gynnwys model cyson i'w ddefnyddio ledled Cymru. Heb fodel o'r fath, gallai fod yn anos sicrhau system ar gyfer meincnodi gan ddefnyddio data ystyrlon i fonitro cynnydd yn genedlaethol.

Oni wneir trefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu bwrdd rhaglen er mwyn sicrhau y caiff y cynllun cyflawni ei roi ar waith yn effeithiol, ceir risg y gall yr ysgogiad cychwynnol edwino. O ganlyniad i hyn, gallai fod sôn am ddiffyg cynnydd, gan arwain at feirniadaeth gan randdeiliaid allweddol.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu yn seiliedig ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn gallu gwireddu ei botensial llawn. Fel rhan o'r gwaith a wnaed i lunio'r cynllun cyflawni a chytuno ar yr ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol, mae amcanion llesiant Llywodraeth Cymru a'r saith nod llesiant wedi cael eu hadlewyrchu.

Pam mae datblygiad iaith yn bwysig? Gall datblygiad cynnar cadarnhaol mewn iaith a llythrennedd roi darlun ehangach o'r byd i blant, gan helpu i sicrhau y gall pob plentyn fanteisio i'r eithaf ar ei botensial ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol. Yn ystod tair blynedd gyntaf bywyd y bydd yr ymennydd yn datblygu fwyaf, pan fydd plant yn meithrin y gallu i feddwl, siarad, dysgu a rhesymu.

Prif amcan y cynllun cyflawni yw pwysleisio'r negeseuon craidd i rieni ynglŷn â siarad â'ch plentyn o'r cychwyn cyntaf. Bydd ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol sy'n rhoi cyngor ac awgrymiadau i rieni yn codi ymwybyddiaeth ac yn annog cymorth ychwanegol. Yn y pen draw, bydd hyn o fudd i blant yng Nghymru drwy wella eu siawns o allu dysgu o'r oedran ieuengaf posibl a'u galluogi i fanteisio ar y cwricwlwm ysgol yn well.

O'r wybodaeth sydd ar gael iddynt, bydd rhieni'n gwybod pryd a ble i geisio cymorth mewn achosion lle bo'n ymddangos bod plentyn yn profi oedi neu anawsterau gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae ymyrryd yn gynnar yn hollbwysig a bydd ein gweithwyr proffesiynol hynod hyfforddedig, gan ddefnyddio ein gweithdrefnau gwell ar gyfer asesu anghenion iaith plant, yn gallu darparu'r lefelau priodol o gymorth ledled Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda'n rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol gan gynnwys Byrddau Iechyd er mwyn rhoi mesurau ar waith i liniaru effaith cynnydd sydyn posibl yn y galw am wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyhoeddusrwydd. Byddwn yn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd o ymgyrchoedd blaenorol mewn perthynas ag iechyd meddwl a arweiniodd at gynnydd yn y galw am wasanaethau.

Fel rhan o'n cynlluniau i wreiddio'r arferion da a ddatblygwyd gan dimau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg yn ehangach, byddwn yn ystyried sut y gallwn wneud lleferydd, iaith a chyfathrebu yn rhan annatod o Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Nodir ein hymrwymiad i'r Blynyddoedd Cynnar yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Mae gan Awdurdodau Lleol Braenaru sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar gyfle i adeiladu ar lwyddiannau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Rhaglen Plant Iach Cymru. Bydd y gwaith a wneir i brofi dulliau/modelau gwahanol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu system fwy integredig ac ymatebol ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn y maes yn allweddol o ran llywio ein syniadau ynghylch sut beth y gall fframwaith cenedlaethol ar gyfer trawsnewid y blynyddoedd cynnar fod, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir. Mae'r integreiddio hwn yn hanfodol er mwyn i ni gyflawni ein huchelgais o roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.

Er mwyn datblygu gwelliannau o ran y ffordd y caiff anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant eu hasesu, rydym wedi sefydlu gweithgor o blith Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Dechrau'n Deg a byddwn yn gweithio gydag ymchwilwyr i ddeall y camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd i ddatblygu adnodd sgrinio a fydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn sefydlu Bwrdd Rhaglen a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer monitro cynnydd fel y caiff y cynllun cyflawni ei roi ar waith ac y caiff canlyniadau pendant eu cofnodi.

**Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Caiff y trefniadau llywodraethu rhaglenni angenrheidiol eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pob partner yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymrwymiadau yn y cynllun terfynol yn dilyn yr ymgynghoriad. Rhoddir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r Gweinidogion perthnasol er mwyn sicrhau bod y gwaith pwysig hwn yn cael sylw cyson.

Byddwn yn comisiynu adroddiadau cynnydd rheolaidd ar ôl i'r cynllun cyflawni gael ei gyhoeddi. Caiff yr adolygiad ei ddefnyddio i lywio cynlluniau yn y dyfodol.